



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

## **Deddf Tiroedd Comin 2006 Adran 38**

---

**Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen gais  
am ganiatâd gwaith adeiladu ar dir  
comin**



INVESTOR IN PEOPLE



Mai 2013

**Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen gais caniatâd  
gwaith adeiladu ar dir comin**

Cyflwyniad 1

Llenwi eich ffurflen apêl 1

Cwynion 10

Adolygiad Barnwrol

Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**Atodiad A** – Ffurf ar Hysbysiad ar gyfer hysbysebu eich  
cynigion

**Atodiad B** -

Enghraifft o Hysbysiad (fel enghraifft yn unig)

**Atodiad C**

Ffurf ar lythyr i'w anfon at ymgynghoreion yn amgáu copi  
o'r hysbysiad drafft

**Atodiad D**

Ffurf ar lythyr i chi ei anfon atom yn cadarnhau y  
bodlonwyd y gofynion hysbysebu

**Atodiad E**

*Deddf Tiroedd Comin 2006 (c.26)*

*Rhan 3 - Gwaith*

# **Nodiadau ar gyfer gwneud cais am ganiatâd gwaith adeiladu ar dir comin**

**Sylwer:** Mae'r wybodaeth a geir yn yr arweiniad hwn yn perthyn i weithdrefnau yng Nghymru yn unig.

**Dylech ddarllen y daflen hon yn ogystal â'r daflen 'Trosolwg Cyffredinol ar gyfer Ceisiadau o dan Adran 16 ac Adran 38'.**

**Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond nid oes iddi unrhyw statws cyfreithiol.**

**Ar 1 Ebrill 2013, rhoddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y gorau i weithredu a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.**

## **1. Cyflwyniad**

Nod y nodiadau hyn yw eich helpu chi os ydych yn bwriadu gwneud gwaith ar dir comin. Dylech eu darllen ar y cyd â'r ffurflen gais a'r nodyn 'Arweiniad ar Dir Comin – Trosolwg Cyffredinol'.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i ymarfer eu swyddogaethau o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006 (gweler Atodiad E) ar eu rhan.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth Llywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ein prif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol. Deliw'n hefyd ag amrywiaeth eang o waith achos apêl arall gan gynnwys apeliadau amgylcheddol a gorchmynion hawliau tramwy. Deliw'n ag apeliadau yng Nghymru o'n swyddfa yng Nghaerdydd ac apeliadau yn Lloegr o'n swyddfa ym Mryste.

## **2. Llenwi'r Ffurflen Gais**

**Mae cyfeiriadau'r ffurflen gais yn dilyn:**

**ADRAN A – Y tir**

### **Nodyn 1**

O dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006, rhaid i chi gael caniatâd Gweinidogion Cymru i adeiladu unrhyw waith cyfyngedig ar dir a gofrestrir fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Gwaith cyfyngedig yw unrhyw waith sy'n atal neu sy'n tarfu ar fynediad i'r tir neu drosto, ynghyd ag unrhyw waith ail-wynebu, megis maes parcio neu ffordd fynediad newydd (gweler 'Arweiniad ar Dir Comin - Trosolwg Cyffredinol' am fwy o wybodaeth).

Mae Adran 38 yn gymwys hefyd i dir nad yw wedi ei gofrestru fel tir comin ond sy'n cael ei reoleiddio gan Ddeddf Cadarnhau Gorchymyn Dros Dro o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876 neu sy'n destun cynllun rheoli o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1899. Nid yw Adran 38 yn gymwys yn gyffredinol i feysydd tref neu bentref [gweler 'Arweiniad ar Dir Comin – Darpariaethau Caniatâd Arbennig (heblaw am dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)' am fwy o wybodaeth ar feysydd tref neu bentref], ond mae'n bosibl y bydd yn gymwys yn achlysurol os yw maes tref neu bentref yn destun cynllun neu ddeddf.

Nid yw Adran 38 yn gymwys i diroedd comin y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen arnynt ond mae darpariaeth sy'n gyfystyr, adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971, yn gymwys. Gweler 'Arweiniad ar Dir Comin – Darpariaethau Caniatâd Arbennig (Tiroedd Comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)' am fwy o wybodaeth ar waith ar diroedd comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

### **Nodyn 2**

Cyn ymgeisio, gwiriwch enw'r comin gyda'r **awdurdod cofrestru tiroedd comin** yn eich ardal (**fel arfer y cyngor bwrdeistref, bwrdeistref sirol neu sirol**) a bod y tir wedi'i gofrestru fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Os yw'r tir wedi'i gofrestru fel tir comin (neu os yw'n un o'r meysydd pentref sy'n destun adran 38), yna dylech chi anfon copiâu ardystiedig o'r gofrestr atom (a ddelir gan yr **awdurdod cofrestru tiroedd comin**) gyda'ch cais. Bydd hyn yn cynnwys manylion y tir, hawliau a pherchenogaeth, a map y gofrestr.

Mae'n bosibl y bydd yr **awdurdod cofrestru tiroedd comin** yn dal gwybodaeth arall a fydd yn eich helpu i lenwi gweddill y ffurflen hon.

### **Nodyn 3**

Lle caiff gwaith cyfyngedig ei adeiladu yn anghyfreithlon (h.y. heb ganiatâd Gweinidogion Cymru), gall unrhyw un weithredu yn ei erbyn trwy'r llys sirol o dan adran 41 (gweler taflen Llywodraeth Cymru 'Arweiniad ar Dir Comin – Gorfodi yn erbyn gwaith anghyfreithlon ar diroedd comin' am ragor o wybodaeth).

## **ADRAN C – Ardal Tir Comin a Hawliau Tir Comin**

### **Nodyn 4**

Os yw'r tir wedi'i gofrestru, ymgynghorwch ag adran hawliau y gofrestr tiroedd comin (a ddelir gan yr **awdurdod cofrestru tiroedd comin**) cyn ateb adran C. Gall hawliau tiroedd comin cofrestredig gynnwys: porfa (pori), torri mawn (palu mawn), casglu cynnud (e.e. rhedyn ar gyfer gwelyau anifeiliaid), pysgodfa (pysgota), mesobr (moch yn bwyta mes), neu bethau cyffredin yn y pridd (mwynau).

Ni fydd y gofrestr tiroedd comin yn dangos pa gominwyr sy'n weithredol, ond dylai eich ymgynghoriadau anffurfiol, cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen gais, ddatgelu'r rhain.

## **ADRAN D – Y cynnig**

### **Nodyn 5**

Disgrifiwch y cynnig yn llawn a chynhwyswch fanylion unrhyw ddeunyddiau adeiladu i'w defnyddio. Ystyriwch a oes unrhyw waith sy'n ychwanegol i'r prif gynnis y dylech geisio caniatâd ar ei gyfer. Datganwch yr holl ardaloedd yn gywir. Peidiwch â thanamcangyfrif, gan y gallai hyn arwain at broblemau yn hwyrach.

### **Nodyn 6**

Mae gan y cyhoedd hawl mynediad i bron yr holl dir comin cofrestredig (**gweler Nodyn 17 a 18**). Byddwn yn ystyried hyn yn ofalus iawn wrth benderfynu ar eich cais. Ar gyfer cynigion ffensio, atebwch gwestiynau ychwanegol 17-20 y ffurflen gais yn llawn.

### **Nodyn 7**

Ar gyfer gwaith dros dro/ffensio, datganwch yn glir y cyfnod amser ar gyfer y caniatâd. Os oes arnoch angen y gwaith ar ôl i'r cyfnod amser hwn ddod i ben, bydd angen caniatâd adran 38 pellach fel arfer.

### **Nodyn 8**

Os oes, byddwch cystal â thrin yr holl waith rydych yn ceisio caniatâd ar ei gyfer fel gwaith 'arfaethedig' wrth lenwi'r ffurflen, pa un a yw wedi cael ei adeiladu neu beidio. Eglurwch, wrth ateb cwestiynau 11 a 12:

- (i) pa waith sydd eisoes yn ei le, a pham; a
- (ii) pha waith fydd yn waith newydd.

Dylech gael caniatâd bob amser cyn cyflawni unrhyw waith. Os, am unrhyw reswm (e.e. diofalwch), rydych eisoes wedi dechrau neu wedi gorffen y gwaith, yna byddwn yn dal i dderbyn eich cais; ond rydych mewn perygl o achos gorfodi yn eich erbyn yn y cyfamser (gweler nodyn Llywodraeth Cymru 'Arweiniad ar Dir Comin – Gorfodi yn erbyn gwaith anghyfreithlon ar dir comin' am ragor o wybodaeth).

Os rhoddir caniatâd, bydd yn effeithiol o adeg dechrau'r gwaith. Os ceisir caniatâd ond na chaiff ei roi, ystyrir bod y gwaith yn anghyfreithlon ac rydych mewn perygl o bobl yn cychwyn achos gorfodi yn eich erbyn.

### **Nodyn 9**

Mae'n bwysig rhoi ymateb **llawn** yma i gefnogi eich cynnig. Dylech ymdrin â chwestiynau fel:

- Sut bydd y gwaith yn helpu i ddiogelu, cynnal neu wella'r tir comin, ar ôl ystyried yr holl fuddiannau cysylltiedig?
- Pa opsiynau a ystyrioch er mwyn cyflawni eich amcanion, a pham bu i chi benderfynu ar hwn?
- A ystyriwyd opsiynau a gynhwysai lai o waith (neu ddim gwaith) ar dir comin? Pam gwrthodwyd y rhain?

Gweler 'Arweiniad ar Dir Comin – Trosolwg Cyffredinol' am ragor o arweiniad.

## **Nodyn 10**

Cewch eich annog yn gryf i ymgynghori'n anffurfiol ar eich cynigion yn gynnwys yn eu datblygiad. Gweler y nodyn 'Arweiniad ar Dir Comin – Trosolwg Cyffredinol' i gael cyfarwyddyd ar ymgynghori'n anffurfiol, gan ystyried yn benodol yr adran *Pa gamau ddylwn eu cymryd cyn ymgeisio?*

**Bydd unrhyw ddogfennau a anfonwch atom, gan gynnwys llythyrau oddi wrth drydydd parti, ar gael ar gais i unrhyw barti â buddiant. Dylech sicrhau bod y partiön perthnasol yn ymwybodol o hyn.**

## **ADRAN E – Caniatâd arall**

### **Nodyn 11**

Os rhoddir caniatâd o dan adran 38, bydd dal rhaid i chi gael unrhyw ganiatâd hanfodol arall, awdurdod cyfreithiol neu dystiolaeth gefnogol cyn cychwyn ar y gwaith – fel caniatâd oddi wrth berchennog y tir, caniatâd cynllunio, gan gadw at y broses asesu effaith ar yr amgylchedd os yw hynny'n briodol, a chaniatâd gan yr awdurdod priffyrdd i godi camfeydd neu giatiau ar hawl tramwy cyhoeddus (gweler Cwestiwn 17 a nodyn 'Arweiniad ar Diroedd Comin – Trosolwg Cyffredinol'). Mae caniatâd adran 38 yn cynnwys caniatâd i symud ymlaen â gwaith ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (**gweler Adran F, Nodyn 13** a'r 'Arweiniad ar Diroedd Comin - Trosolwg Cyffredinol').

### **Nodyn 12**

**Mae'r nodyn hwn ond yn gymwys pan fydd arnoch angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich cynnig.** Gellir rhoi caniatâd dim ond ar gyfer y gwaith a ddisgrifir yn eich cais a'r hysbysiad a gyhoeddir (**gweler Nodyn 22**). Ar ôl hysbysebu eich cynnig, os yw'n newid yn hwyrach, er enghraifft, trwy amodau'n cael eu gorfodi gan y caniatâd cynllunio, mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dynnu eich cais yn ei ôl a chyflwyno un newydd. Felly, er mwyn osgoi gwaith diangen, mae'n bosibl y byddai'n well gennych aros tan i'r caniatâd cynllunio gael ei roi, lle bo'i angen, cyn ceisio caniatâd adran 38. Os dewiswch gyflwyno'r ceisiadau ar yr un pryd, byddwn yn dal yn gofyn i chi gael ac anfon copi atom o'r caniatâd cynllunio cyn penderfynu ar eich cais adran 38.

## **ADRAN F - Dynodiadau**

### **Nodyn 13**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwybod a yw'r dynodiadau hyn yn gymwys ai peidio.

Manylion cysylltu: (INSERT CONTACT DETAILS)

Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ffacs: 0300 065 3001

E-bost: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## **Nodyn 14**

Gallwch gael gwybodaeth am henebion cofrestredig trwy gysylltu â Cadw.

Manylion cysylltu:

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336000  
Ffacs: 01443 336001  
E-bost: [cadw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cadw@wales.gsi.gov.uk)

## **ADRAN G – Gwaith presennol a thir comin cyfagos**

### **Nodyn 15**

Mae'r nodyn hwn yn gofyn am fwy o wybodaeth am gyd-destun y gwaith arfaethedig ar y tir comin o amgylch. Wrth benderfynu ar eich cais, byddwn yn ystyried unrhyw waith presennol ar y tir comin, effaith bosibl y cynnig ar y tir comin a'r holl dir comin arall sydd gerllaw.

## **ADRAN H – Mynediad i'r cyhoedd**

### **Nodyn 16**

Ymgynghorwch â'r gofrestr tiroedd comin neu'r **awdurdod cofrestru tiroedd comin** am y wybodaeth y gofynnir amdani yng nghwestiynau 24 a 25 y ffurflen gais.

### **Nodyn 17**

Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cwestiynau yn Adran H, dylech fod yn ymwybodol bod Rhan 1 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi cyflwyno hawl mynediad ar droed i'r cyhoedd ar yr holl diroedd comin cofrestredig (nad oedd hawl mynediad yn perthyn iddynt eisoes). Gall yr hawl hon fod yn destun rhai eithriadau a chyfyngiadau penodol.

### **Nodyn 18**

Mae Adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 yn rhoi hawl mynediad i'r cyhoedd ar gyfer awyr iach ac ymarfer corff i unrhyw dir comin sy'n gorwedd mewn ardal a oedd yn fwrdeistref neu ddosbarth trefol cyn 1 Ebrill 1974. Gelwir y rhain yn 'diroedd comin trefol' yn aml. Gellir cymhwyso hyn hefyd i diroedd comin eraill ar ffurf Gweithred a wneir gan berchennog y tir.

Mae Gorchymyn Cyfyngiadau fel arfer yn cyfyngu math neu gwmpas mynediad y cyhoedd i dir y mae adran 193 yn perthyn iddo.

## ADRAN I – Cynlluniau rheoli a Deddfau lleol

### Nodyn 19

Os oes cynllun, darllenwch ei dermau yn ofalus. Caniateir peth gwaith gan gynlluniau, heb unrhyw ofyniad i gael caniatâd Gweinidogion Cymru. Bydd ar **unrhyw waith arall** angen caniatâd o dan adran 38.

### Nodyn 20

Os oes Deddf leol, darllenwch ei thermau yn ofalus ac ymgynghorwch â ni os ydych yn ansicr ynghylch sut mae mynd yn eich blaen. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth am Ddeddfau lleol ar gael gan yr **awdurdod cofrestru tiroedd comin**.

## ADRAN J – Hysbysebu ac ymgynghori

### Nodyn 21

Rhaid i chi hysbysebu eich cynnig o **fewn 7 niwrnod** o wneud y cais hwn, a chaniatáu lleiafswm o **28 diwrnod** i bobl ysgrifennu atom gyda'u barn. Seiliwch yr hysbyseb ar ffurf yr hysbysiad yn **Atodiad A** (mae enghraifft o hysbysiad yn **Atodiad B**), a chynhwyswch yr **holl** waith rydych yn ceisio caniatâd ar eu cyfer.

Wrth lenwi'r hysbysiad:

(a) dylai eich disgrifiad fod yn ddigon manwl i ddarllenwyr wybod a ddymunant wrthwynebu neu gefnogi unrhyw ran o'r cynnig;

(b) dylai'r cyfeiriad ar gyfer archwilio'r cais a'r map fod yn hawdd i bobl sy'n byw ger y tir comin ei gyrraedd. Mae ymgeiswyr yn defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfeydd cyngor neu swyddfeydd post yn aml. Nid yw cyfeiriad preifat yn briodol fel arfer ond gallai fod yn dderbyniol mewn achosion eithriadol iawn mewn cymuned anghysbell lle mai dim ond anheddau sydd, yn hytrach na mannau lle mae adeiladau cyhoeddus; ac

(c) ni ddylai'r dyddiad cau ar gyfer ysgrifennu atom fod yn llai na 28 diwrnod o ymddangosiad yr hysbysiad. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw sefydliadau yr ysgrifennwch atynt (gweler Nodyn 22) yn cael yr hysbysiad o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad cau.

Gallwn gynnig cyngor ar lunio'r hysbyseb, gan gynnwys a yw defnyddio cyfeiriad preifat ar gyfer archwilio'r cais yn dderbyniol, ond chi fydd yn gyfrifol am ddisgrifio'r cynnig.

### Nodyn 22

Rhaid i'r hysbysiad gael ei:

(a) hysbysebu mewn o leiaf un prif bapur newydd lleol;

(b) anfon at yr holl sefydliadau a restrir yn Adran J, gan ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad C** (gweler y paragraffau nesaf);

(c) postio ym mhrif mannau mynediad y tir comin (neu, os nad oes mannau o'r fath, mewn man amlwg ar y safle); a

(d) chael ei osod yn y man archwilio gyda'r cais a'r map.

Er mwyn cydymffurfio â (b) uchod, rhaid i chi ysgrifennu at yr holl sefydliadau a restrir yn Adran J, gan ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad C** os yw eich cais o dan adran 38 neu adran 23. Gallech hefyd ddewis anfon yr hysbysiad at gyrff eraill sydd â buddiant yn y tir neu ei fflora a ffawna (er enghraifft, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Fforwm Mynediad Lleol, Cymdeithas y Crwydrwyr, cymdeithas amwynderau leol). Mae'n bosibl y gwyddoch hefyd am gyrff eraill a fyddai'n elwa ar gael copi o'r hysbysiad o ganlyniad i'r broses ymgynghori anffurfiol (gweler 'Arweiniad ar Diroedd Comin - Trosolwg Cyffredinol').

Rhaid i chi ymgynghori â'r holl gominwyr gweithredol. Dylech o leiaf ysgrifennu at breswylwyr unrhyw eiddo a ddangosir ar y gofrestr tiroedd comin fel rhai sydd â hawliau tiroedd comin ynghlwm wrth yr eiddo, ac unrhyw un arall y gwyddoch amdano sydd â hawl i ymarfer hawliau, **os** credwch fod yr hawliau hynny yn cael eu hymarfer neu'n debygol o gael eu heffeithio gan y cais. Lle bo'n ymarferol, dylech ysgrifennu at breswylwyr yr holl eiddo ar y gofrestr, ond cydnabyddwn na fydd hyn yn ddichonol bob amser lle bod nifer fawr o hawliau wedi'u cofrestru.

Rhaid i chi ysgrifennu atom cyn gynted â phosibl, gan ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad D**, er mwyn cadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofynion hysbysebu. Ni allwn symud yn ein blaenau o ran ystyried eich cais tan i ni gael y cadarnhad hwn oddi wrthych.

## **Nodyn 23**

### **Sylwadau gan bartïon â buddiant**

Os cawn wrthwynebiadau neu sylwadau eraill gan bartïon â buddiant, byddwn yn rhoi copi i chi ac yn gofyn am eich sylwadau o fewn 21 diwrnod. Mae'n bosibl y byddwn yn casglu wedyn y gallwn ddod i benderfyniad yn seiliedig dim ond ar dystiolaeth ysgrifenedig, neu fod ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad neu ymweliad safle yn ofynnol. Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau (neu ychydig yn unig), mae'n fwy tebygol y deuir i benderfyniad ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Mae'n fuddiol eich bod chi felly wedi sefydlu cefnogaeth leol ar gyfer eich cais cyn ei gyflwyno. Byddwn yn eich hysbysu am gynnydd eich cais (gweler 'Arweiniad ar Diroedd Comin - Trosolwg Cyffredinol').

**Sylwch y gellir datgelu'r dystiolaeth a gyflwynwch, boed yn y cais ei hun neu mewn gohebiaeth, i wrthwynebwyr neu unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y cais ar unrhyw adeg. Dylai unrhyw ymatebion a wnewch i wrthwynebiadau felly ond gynnwys sylwadau sy'n berthnasol i'r pwyntiau sy'n cael eu codi, ac ni ddylent gynnwys materion eraill na ddymunech iddynt gael eu datgelu.**

## Nodyn 24

Mae'r Gymdeithas Mannau Agored yn ymgyrchu i ddiogelu tir comin, mannau cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

Manylion cysylltu:

Open Spaces Society  
25a Bell Street  
Henley-on-Thames  
Oxfordshire  
RG9 2BA  
Ffôn: 01491 573535  
Ffacs: 01491 573051  
E-bost: [hq@oss.org.uk](mailto:hq@oss.org.uk)

## ADRAN K - Mapiau

### Nodyn 25

Darparwch **ddau gopi** o fap diweddar sy'n dangos yn glir yr hyn y bwriadwch ei wneud a ble. Mae hyn yn ychwanegol i fap y gofrestr, y mae'n rhaid i chi anfon copi ohono atom (gweler Adran A a **Nodyn 2**).

Mewn perthynas â map y cais:

- defnyddiwch ddalen rhifyn diweddaraf yr Arolwg Ordnans, sydd â graddfa ddigonol i ddangos yn glir lleoliad y gwaith mewn perthynas â nodweddion eraill (1:2,500 os yw ar gael neu heb fod yn llai nag 1:10,000);
- amlygwch yn glir raddfa'r map, fel y gallwn wirio mesuriadau'r gwaith arfaethedig;
- amlygwch yn gywir ffin y tir comin mewn **GWYRDD** a safle'r gwaith arfaethedig mewn **COCH** (mae manylion y ffin ar fap y gofrestr);
- dangoswch y wybodaeth ar un map yn unig os yn bosibl, ond defnyddiwch fapiau ychwanegol os bydd angen;
- dangoswch yn glir, ar bob map, o leiaf dau enw ffordd neu nodweddion eraill er mwyn gallu adnabod y safle yn hawdd, a rhwch o leiaf un cyfeirnod grid llawn;
- cynhwyswch gynllun neu lun o'r gwaith arfaethedig os yw'n helpu i esbonio eich cynnig;
- darparwch **ddau gopi** o bob map a chynllun.

## ADRAN L – Ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad

### Nodyn 26

#### Ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad

Ni chynhelir ymchwiliad neu wrandawriad bob amser (gweler **Nodyn 23** a'r 'Arweiniad ar Diroedd Comin - Trosolwg Cyffredinol'). Lle bo angen, mae'n arferol cynnal y rhain mewn neuaddau cyhoeddus, adeiladau'r cyngor, siambrau neu ystafelloedd pwyllgor y cyngor, a chynhelir rhai ohonynt mewn gwestai, ysgolion, theatrau ac ati. Fel arfer, bydd rhaid i'r lleoliad a ddewisir fod yn unol â gofyniad ein Nodyn Cyfleusterau Lleoliadau Ymchwiliadau. Dyma ddolen at y nodyn:

[http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue\\_and\\_facilities\\_for\\_public\\_inquiries\\_and\\_hearings.pdf](http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue_and_facilities_for_public_inquiries_and_hearings.pdf)

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth leol, ac adborth a geir o'u hymgyngghoriadau anffurfiol, i farnu lefelau gwrthwynebu/cefnogi ar gyfer eu cynnig. Dylai'r lleoliad fod yn ddigon mawr i ddal yn gyfforddus y bobl y disgwylir iddynt fod yn bresennol. Nid yw lleoliadau mawr yn ddymunol ar gyfer gwrandawriad neu ymchwiliad lle nad oes disgwyl i lawer o bobl fod yn bresennol. Yn yr un modd, mae lleoliadau bach yn amhrifodol ar gyfer ymchwiliadau sy'n denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus. Ni ddylai'r lleoliad gael ei effeithio gan sŵn neu dwrw arall sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mewn rhannau eraill o'r adeilad neu'r ardal o'i gwmpas e.e. grwpiau chwarae, chwaraeon a gemau, gwaith adeiladu, ac ati.

### **3. Cwynion ac Adolygiad Barnwrol**

#### ***Cyflwyno cwyn i ni***

Os oes gennych gwyn am y ffordd yr ymdrinnir neu yr ymdriniwyd â'ch cais, naill ai gan yr Arolygydd neu gan ein Swyddog Achos, dylech gysylltu â'r Swyddog Cwynion :

Y Swyddog Cwynion  
Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 3889

E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

Ymchwilir i'ch cwyn yn deg a gallwch ddisgwyl ateb o fewn tair wythnos fel arfer. Os bu gwall, byddwn yn esbonio hyn ac yn ymddiheuro, ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni newid y penderfyniad mewn unrhyw ffordd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno ar ein gwefan:

[www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/complaints\\_leaflet.pdf](http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/complaints_leaflet.pdf)

#### ***Yr Uchel Lys***

Unwaith y caiff penderfyniad ar gais ei gyhoeddi, nid oes gennym y pŵer i'w ddiwygio neu ei newid. Yr unig ffordd y gellid adolygu penderfyniad yw trwy ddilyn adolygiad barnwrol llwyddiannus.

Rhaid i chi wneud cais am adolygiad barnwrol i'r Uchel Lys yn brydlon ac yn bendant heb fod yn hwyrach na 3 mis o ddyddiad y penderfyniad. I fod yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i chi ddangos:

- bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi mynd y tu hwnt i'w b/phwerau; neu
- na fodlonwyd meini prawf sy'n berthnasol i'r cais a bod hyn wedi niweidio eich buddiannau.

Dylech wneud cais i'r:

Llys Gweinyddol  
Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd  
2 Stryd y Parc  
Caerdydd  
CF10 1ET  
Ffôn: 029 2037 6400  
Gwefan: [www.courtservice.gov.uk](http://www.courtservice.gov.uk)

Os dymunwch wneud hyn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried cael cyngor gan gyfreithiwr neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

### ***Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru***

Os credwch eich bod wedi cael eich trin yn annheg oherwydd nad ydym ni neu'r Arolygydd wedi gwneud ein gwaith yn gywir, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oes gan yr Ombwdsmon bŵer i amau teilyngdod cais na newid y penderfyniad. Mae a wnelo ef â'r ffordd y deliwn â cheisiadau a'u prosesu yn unig. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio fel arfer, oni bai eich bod wedi cyflwyno cwyn i ni yn y lle cyntaf.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon:  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd Yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ  
Ffôn: 01656 641150 (pris galwad lleol)  
E-bost: [ask@ombudsman-wales.org.uk](mailto:ask@ombudsman-wales.org.uk)  
Gwefan: [www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

### ***Y Cyngor Tribiwnlysoedd***

Os oes gennych gŵyn am y weithdrefn a ddefnyddiom ar gyfer cais, gallwch gwyno i'r Cyngor Tribiwnlysoedd (nid oes gan y Cyngor Tribiwnlysoedd y pŵer i amau teilyngdod y cais na newid y penderfyniad). Dyma'r cyfeiriad:

Council on Tribunals  
81 Chancery Lane  
London  
WC2A 1BQ  
Gwefan: [www.ajtc.gov.uk](http://www.ajtc.gov.uk)

Gallwch gael mwy o wybodaeth am herio penderfyniad yn yr Uchel Lys ar ein gwefan:<http://www.planningportal.gov.uk/>

#### **4. Sut defnyddiwn eich gwybodaeth bersonol**

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:  
[www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement=cymru](http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement=cymru)

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

#### **Gwybodaeth bellach**

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd ar gael ar gais neu ar ein gwefan:  
<http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/planninginspectorate=cymru>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os hoffech wneud cais am eich data personol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod:

#### **Cysylltu â ni**

Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 3866  
Ffacs: 029 2082 5150  
E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

**Atodiad A**  
**Ffurf ar Hysbysiad ar gyfer Hysbysebu eich Cynigion**

TIR COMIN .....

Cymuned/Tref\* .....

Bwrdeistref Sirol/Bwrdeistref/Sir\*.....

Mae'r unigolyn/sefydliad [rhowch yr enw] wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ar gyfer caniatâd o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006/adran 23(2) Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971\* i ymgymryd â gwaith cyfyngedig ar Dir Comin .....

Y gwaith arfaethedig yw: [disgrifiwch y gwaith/ffensio\* a'r ardal a gwmpasant; e.e. ar ..... metr sgwâr/hectar (ardal) a/neu ..... metr (hyd)\*] Lleolir y gwaith/ffensio\* [rhowch y lleoliad ac unrhyw fanylion perthnasol eraill]

Gellir archwilio copi o'r ffurflen gais a'r map sy'n dangos y gwaith arfaethedig yn ..... rhwng 10.00am a 4.00pm yn ystod yr wythnos (nid gwyliau cyhoeddus) tan ..... o ..... [o leiaf 28 diwrnod o ymddangosiad diwethaf yr hysbysiad]. Gellir cael copi o'r cais drwy ysgrifennu at [rhowch y cyfeiriad].

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau yn ysgrifenedig AR neu CYN y dyddiad hwnnw at Arolygiaeth Gynllunio Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu Wales@pins.gsi.gov.uk. **Ni ellir trin** llythyrau a anfonir at yr Arolygiaeth Gynllunio fel rhai **cyfrinachol**. Cânt eu copïo i'r ymgeisydd ac o bosibl i bartïon eraill â buddiant.

*(Rhowch enw a chyfeiriad y sawl sy'n bwriadu gwneud gwaith adeiladu)*

*(Rhowch ddyddiad)*

*\* dileer fel y bo'n briodol*

**Atodiad B**  
**Enghraifft o Hysbysiad (enghraifft yn unig)**

TIR COMIN LARGISH  
Cymuned Smallston  
Dosbarth Smallford  
Sir Smallshire

Mae Clwb Pêl-droed Smallford wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006 i ymgymryd â gwaith cyfyngedig ar Dir Comin Largish.

Y gwaith arfaethedig yw: (i) sied newid brics 146 metr sgwâr; (ii) man parcio cerrig mân yn gyfagos â'r sied 100 metr sgwâr; (iii) a darn o ffens 40 metr o hyd o gwmpas y maes parcio.

Lleolir y gwaith yng nghornel dde-orllewin y tir comin, i'r de o'r caeau pêl-droed, gyda mynediad a gyfyngir gan uchder o Smallston Lane. Gall ymwelwyr â'r tir comin barcio yn y maes parcio ar y diwrnodau na fydd yn cael ei ddefnyddio gan y clwb pêl-droed. Bydd y ffens yn byst a rheilen 1 metr o uchder a darperir un man mynediad i bobl anabl.

Gellir archwilio copi o'r ffurflen gais a'r map sy'n dangos y gwaith arfaethedig yn Swyddfa Bost Smallston, Small Street, Smallston, Smallshire, SM1 1VS rhwng 10:00am a 4.00pm yn ystod yr wythnos (nid gwyliu cyhoeddus) tan 25 Mai 2008.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau yn ysgrifenedig AR neu CYN y dyddiad hwnnw at Arolygiaeth Gynllunio Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu [Wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:Wales@pins.gsi.gov.uk). **Ni ellir trin** llythyrau a anfonir at yr Arolygiaeth Gynllunio fel rhai **cyfrinachol**. Cânt eu copïo i'r ymgeisydd ac o bosibl i bartïon eraill â buddiant.

S Large  
Ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Smallford  
10 Largish Common Road  
Smallshire  
SM10 6SL

26 Ebrill 2008

### Atodiad C

FFURF AR LYTHYR I'W ANFON AT YMGYNGHOREION YN AMGÁU COPI O'R HYSBYSIAD DRAFFT (CANIATEWCH 5 DIWRNOD RHAG OFN BOD OEDI YN Y POST)

#### **DEDDF TIROEDD COMIN 2006 – ADRAN 38\***

#### **DEDDF YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL 1971 - ADRAN 23\***

Rwyf i/Rydym ni\* yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i wneud gwaith adeiladu ar Dir Comin (enw) o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006/adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971\*.

Mae'n ofynnol i mi/ni\* eich hysbysu am ein cynigion ac rwyf/rydym\* yn anfon copi atoch o'r hysbysiad atodedig er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

[Ar gyfer ceisiadau adran 38 yn unig:

O dan adran 38, mae angen caniatâd Gweinidogion Cymru arnaf/arnom\* i ymgymryd ag unrhyw waith cyfyngedig ar **dir a gofrestrir fel tir comin** o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 (ac ar dir penodol arall a bennir yn adran 38).

Gwaith cyfyngedig yw unrhyw waith sy'n atal neu sy'n tarfu ar fynediad i'r tir neu drosto. Mae'n cynnwys ffensio, adeiladau, strwythurau, ffosydd, cwteri, argloddiau a gwaith arall, lle mai ei effaith yw atal neu darfu ar fynediad. Mae'n cynnwys hefyd, ym mhob achos, wynebau tarmac newydd (neu arwynebau tebyg), megis ar gyfer maes parcio neu ffordd fynediad newydd.]

[Ar gyfer ceisiadau adran 23 yn unig:

O dan adran 23, mae angen caniatâd Gweinidogion Cymru arnom i ymgymryd â gwaith penodol ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n atal neu sy'n tarfu ar fynediad gan y cyhoedd.]

Seilir y penderfyniad ar deilyngdod y cynnig a bydd yn cydbwysu'r holl fuddiannau yn y tir comin, gan ystyried yr holl farnau a fynegir. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r meini prawf a esbonnir yn adran 39 y Ddeddf. Mae'r rhain fel a ganlyn:

(a) buddiannau'r rhai sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir neu sy'n preswyllo arno (ac, yn benodol, unigolion sy'n ymarfer hawliau tir comin arno);

(b) buddiannau'r gymdogaeth;

(c) buddiant y cyhoedd, sy'n cynnwys buddiant y cyhoedd mewn:

- cadwraeth natur
- cadw'r tirlun
- diogelu hawliau mynediad y cyhoedd i unrhyw ran o'r tir, a
- diogelu olion a nodweddion archeolegol o ddiddordeb hanesyddol;

(d) unrhyw fater yr ystyrir ei fod yn berthnasol.

Ystyrir y meini prawf hyn yn sgil y prif nod o ddiogelu, cynnal neu wella'r tir comin, a sicrhau nad yw maint cyffredinol y tir comin yn gostwng. Bydd hyn yn galluogi diogelu amrywiaeth a maint cyffredinol y tir comin.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau ynghylch y cynnig i Arolygiaeth Gynllunio Cymru erbyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.

*\* dilëwch beth bynnag sydd ddim yn berthnasol*

## Atodiad D

FFURF AR LYTHYR I CHI EI ANFON ATOM YN CADARNHAU Y BODLONWYD Y  
GOFYNION HYSBYSEBU  
(ADDASWCH HWN FEL Y BO'N BRIODOL)

**DEDDF TIROEDD COMIN 2006 – ADRAN 38\***

**DEDDF YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL 1971 - ADRAN 23\***

Yn dilyn fy nghais dyddiedig (*rhowch y dyddiad*), cyfeirnod (*os gwyddoch beth ydyw*), ysgrifennaf i gadarnhau y bodlonwyd y gofynion hysbysebu a bennir yn Adran J y ffurflen gais a'r nodiadau arweiniad cysylltiedig.

Cadarnhaf fy mod wedi:

A. cyhoeddi'r hysbysiad yn (*rhowch enw'r prif bapur newydd lleol y cyhoeddwyd yr hysbysiad ynddo*) ar (*rhowch ddyddiad yr hysbysiad*).  
**Amgaeaf gopi o'r hysbysiad yn y papur newydd.** (*Dylai hon fod y ddalen gyfan, gan gynnwys yr hysbysiad ei hun, ond hefyd yn dangos enw a dyddiad y papur newydd.*)

B. anfon llythyr yn seiliedig ar yr un yn Atodiad C\* at yr holl rai a restrir yn Adran J y ffurflen gais. **Atodaf gopi o'r llythyr a anfonwyd.**  
Ymgynghorwyd â'r rhai a restrir fel a ganlyn:

(*rhestrwch yr holl rai yr ymgynghoroch â nhw, gan gynnwys, ar gyfer sefydliadau, enw'r cyswllt*)

C. postio'r hysbysiad yn y prif fannau mynediad â'r tir comin (*neu, os nad oes rai, mewn man amlwg ar y safle*), a byddaf yn ei gadw yno tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

D. gosod copi o'r cais cyflawn, gan gynnwys yr hysbysiad a'r map, yn y man archwilio a roddir yn yr hysbysiad. Bydd y dogfennau hynny yn parhau yno tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

\* *dilëwch pa un bynnag sydd ddim yn berthnasol*

## Atodiad E

*Deddf Tiroedd Comin 2006 (c.26)*

*Rhan 3 - Gwaith*

### 38 Gwahardd gwaith heb ganiatâd

- (1) Ni chaniateir i rywun ymgymryd â gwaith cyfyngedig ar dir y mae'r adran hon yn perthyn iddo, ac eithrio â chaniatâd yr awdurdod cenedlaethol priodol.
- (2) Yn isadran (1) mae "gwaith cyfyngedig" fel a ganlyn—
  - (a) gwaith sy'n atal neu sy'n tarfu ar fynediad i unrhyw dir y mae'r adran hon yn perthyn iddo, neu dros y tir hwnnw;
  - (b) gwaith ailwynebu tir.
- (3) Mae'r cyfeiriad at waith yn isadran (2)(a) yn cynnwys yn benodol—
  - (a) codi ffensys;
  - (b) adeiladu adeiladau a strwythurau eraill;
  - (c) palu argloddiau a ffosydd ac adeiladu argloddiau.
- (4) At ddibenion isadran (2)(b) mae a wnelo gwaith ag ailwynebu tir os yw'n cynnwys gosod concriid, tarmacadam, cerrig ffyrdd dan haen neu ddeunydd tebyg ar y tir (ond nid os yw'n cynnwys dim ond trwsio wyneb presennol a wneir o'r un deunydd).
- (5) Mae'r adran hon yn perthyn i—
  - (a) unrhyw dir a gofrestrir fel tir comin;
  - (b) tir nad yw wedi'i gofrestru felly sy'n—
    - (i) cael ei reoleiddio gan Ddeddf a wnaed o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876 (c. 56) yn cadarnhau gorchymyn dros dro y Comisiynwyr Cau Tiroedd; neu sy'n
    - (ii) destun cynllun o dan Ddeddf Tiroedd Comin Metropolitan 1866 (c. 122) neu Ddeddf Tiroedd Comin 1899 (c. 30);
  - (c) tir nad yw'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) yn y New Forest ac sy'n destun hawliau tir comin.
- (6) Nid yw'r gwaharddiad yn isadran (1) yn berthnasol i—
  - (a) waith ar unrhyw dir lle caiff y gwaith hwnnw, neu waith o ddisgrifiad sy'n cynnwys y gwaith hwnnw, ei gyflawni o dan bŵer a roddir mewn perthynas â'r tir penodol hwnnw gan neu o dan unrhyw ddeddf;
  - (b) gwaith ar unrhyw dir lle caiff y gwaith ei gyflawni o dan bŵer a roddir gan neu o dan unrhyw ddeddf sy'n ymwneud â thir comin;
  - (c) gwaith a awdurdodir o dan gynllun Deddf Tiroedd Comin Metropolitan 1866 neu Ddeddf Tiroedd Comin 1899 heb unrhyw ofyniad i unrhyw un gydsynio i'r gwaith;
  - (d) gwaith gosod cyfarpar cyfathrebu electronig at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebu electronig.
- (7) Yn isadran (6)(a) nid yw'r cyfeiriad at ddeddf yn cynnwys Rhan 2 y Ddeddf hon.
- (8) At ddibenion isadran (6)(b), mae deddf yn perthyn i dir comin os mynegir ei bod yn gymwys (yn gyffredinol) i—
  - (a) dir comin cofrestredig;
  - (b) tir comin; neu
  - (c) unrhyw dir comin neu diroedd comin, tir cominadwy, tir sy'n destun cau tiroedd o dan unrhyw ddeddf neu unrhyw dir arall o ddisgrifiad tebyg.
- (9) Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Rhan hon, mae caniatâd a roddir i waith o dan isadran (1) yr adran hon yn gyfystyr â chaniatâd at ddibenion yr isadran honno yn unig.

### 39 Caniatâd: cyffredinol

(1) Wrth benderfynu ar gais am ganiatâd o dan isadran (1) adran 38 mewn perthynas â gwaith ar dir y mae'r adran honno yn perthyn iddo, bydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yn ystyried—

- (a) buddiannau unigolion sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir neu sy'n preswyllo arno (ac yn benodol unigolion sy'n ymarfer hawliau tir comin drosto);
- (b) buddiannau'r gymdogaeth;
- (c) buddiant y cyhoedd;
- (d) unrhyw fater arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol.

(2) Mae'r cyfeiriad yn isadran (1)(c) at fuddiant cyhoeddus yn cynnwys buddiant y cyhoedd mewn—

- (a) cadwraeth natur;
- (b) cadw'r tirlun;
- (c) diogelu hawliau mynediad y cyhoedd i unrhyw ardal o dir; a
- (d) diogelu olion archeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol.

(3) Gellir rhoi caniatâd o dan adran 38(1)—

- (a) mewn perthynas â'r holl waith arfaethedig neu ran ohono;
- (b) yn amodol ar ddiwygiadau ac amodau sy'n perthyn i'r gwaith arfaethedig yn unol â barn yr awdurdod cenedlaethol priodol.

(4) Wrth ystyried yr effaith mewn perthynas ag unrhyw dir y gwaith arfaethedig o dan yr adran hon, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yn ystyried yr effaith honno ar y cyd â'r effaith mewn perthynas â thir y gwaith hwnnw y rhoddwyd caniatâd yn flaenorol ar ei gyfer o dan adran 38(1) uchod neu adran 194 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 (c. 20).

(5) Lle bo'r awdurdod cenedlaethol priodol yn gorfodi unrhyw ddiwygiad neu amod mewn perthynas ag unrhyw ganiatâd a roddir o dan adran 38(1), gall amrywio neu ddileu'r diwygiad neu'r amod hwnnw, ar gais unrhyw un sy'n cyflawni neu sy'n bwriadu cyflawni gwaith yn unol â'r caniatâd.

(6) Mae'n bosibl y bydd rheoliadau yn pennu terfyn amser ar gyfer gwneud ceisiadau o dan isadran (5).

(7) Mae'n bosibl rhoi caniatâd o dan adran 38(1) mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd neu a gwblhawyd; a bydd unrhyw ganiatâd a roddwyd felly yn effeithiol o adeg dechrau'r gwaith.